**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Yr Athro Amanda Kirby
Cadeirydd
Sefydliad ADHD

Yr Athro Anita Thapar
Is-adran Meddygaeth Seicolegol a Niwrowyddorau Clinigol, Prifysgol Caerdydd

10 Mehefin 2022

Annwyl Amanda ac Anita

Cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth ar anghydraddoldebau iechyd meddwl ar 8 Mehefin 2022

Diolch am ddod i'n cyfarfod ddydd Mercher 8 Mehefin 2022 ac am ymateb i'n cwestiynau. Yn dilyn y sesiwn, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch gyda nifer o gwestiynau dilynol, fel yr amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Os yn bosibl, byddem yn ddiolchgar o gael ymatebion erbyn dydd Gwener 24 Mehefin, gan y bydd hyn yn ein galluogi i ystyried eich ymatebion yn ystod y sesiynau tystiolaeth sy'n canolbwyntio ar y gweithlu y byddwn yn eu cynnal ar 6 Gorffennaf 2022.

Yn gywir

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth a fynychwyd gennych ar 8 Mehefin 2022 fel rhan o'n hymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y materion a restrir isod. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn anfon eich ymateb erbyn dydd Gwener 24 Mehefin.

### Mynediad at wasanaethau iechyd meddwl

1. Drwy gydol ein hymchwiliad rydym wedi clywed am bwysigrwydd cydgynhyrchu. I ba raddau mae pobl â phrofiad bywyd o niwrowahaniaeth neu gyflyrau niwroddatblygiadol yn ymwneud â datblygu a darparu gwasanaethau niwroddatblygiadol. Sut y gellir gwella hyn?

### Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

2. Rydym wedi clywed pryderon ynghylch lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyflyrau niwrowahanol ymhlith y gweithlu addysg, y gweithlu iechyd meddwl a'r gweithlu ehangach. Sut y gellid gwella'r broses o ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant? A oes rhannau penodol o'r gweithlu, neu elfennau o hyfforddiant y dylid eu blaenoriaethu?

3. Rydym hefyd wedi clywed bod angen mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o niwroamrywiaeth a chyflyrau niwrowahanol. Beth y gellid ei wneud i annog symudiad diwylliannol mewn cymdeithas tuag at 'groesawu' niwroamrywiaeth?

### Polisi Llywodraeth Cymru

4. A oes dull gweithredu digon cydgysylltiedig yn Llywodraeth Cymru i gyflawni'r gwelliannau a'r canlyniadau mae eu hangen ar bobl â chyflyrau niwrowahanol? Os na, beth sydd angen ei newid?